Strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*

Dogfen Cychwyn Rhaglen (PID)

Enw'r Prosiect	Strategaeth y Gymraeg: *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*
Grŵp	Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Adran	Is-adran y Gymraeg
Branch	Cymraeg 2050
Uwch-swyddog Cyfrifol (SRO)	Bethan Webb
Rheolwr y rhaglen	[ ]
Dyddiad	20 Mawrth 2019
Awdur	[ ]
Fersiwn	1.0

Pwrpas y Ddogfen
Mae'r Ddogfen Cychwyn Rhaglen hon (*Programme Initiation Documentation* / PID) yn diffinio'r rhaglen. Bydd yn cael ei chyflwyno i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ac i'r Bwrdd Prosiect er mwyn iddynt ei chymeradwyo, ac fe gaiff ei hadolygu i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn statws y rhaglen.

Hanes y Ddogfen

Adolygiadau:

Dyddiad Adolygu	Prif Newidiadau

Hanes Cymeradwyo:

Fersiwn	Statws	Dyddiad	Cymeradwywyd gan

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Cefndir

1. Yn ystod ymgynghoriad ar y strategaeth iaith ddrafft ym mis Awst 2016, cyhoeddodd y Prif Weinidog ymrwymiad ei lywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Caiff yr ymrwymiad hwn ei ailadrodd mewn dogfennau polisi a deddfwriaeth megis *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*, rhaglen pum mlynedd y Llywodraeth a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

2. Sefydlwyd Bwrdd Cynllunio Strategaeth 2050 o fewn Is-adran y Gymraeg i graffu, ac i gynnig cefnogaeth ac arweiniad wrth ddatblygu polisi i gyd-fynd â'r strategaeth. Cynhaliwyd trafodaethau cyson gydag adrannau ar draws y Llywodraeth a dwysáu wnaeth y trafodaethau hynny wrth i'r sylw droi fwyfwy at gytuno ar dargedau'r rhaglen waith. Hefyd, cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu â phrif randdeiliaid allanol y Gymraeg.

3. Wedi cyfnod dwys o ymgysylltu allanol a mewnol, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Strategaeth y Gymraeg: *Cymraeg 2050* ar 11 Gorffennaf 2017. Yn atodol i'r strategaeth, cyhoeddodd *Raglen Waith 2017-2021* ar gyfer pedair blynedd cyntaf y strategaeth.

4. Mae *Cymraeg 2050* yn strategaeth uchelgeisiol sy'n gofyn am newid gêr. Mae'n cynnwys dau darged cyffredinol:
    - Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050 (ein man cychwyn yw 562,000 o siaradwyr, canlyniadau Cyfrifiad 2011).
    - Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013-15) i 20% erbyn 2050.

5. Mae *Cymraeg 2050* wedi adnabod 10 newid trawsnewidiol sy'n rhaid digwydd er mwyn cyrraedd y ddau darged uchod. Dyma nhw:

    - Gwneud cynnydd cyflym i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 150 yn fwy o grwpiau meithrin dros y degawd nesaf er mwyn hwyluso dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg.
    - Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna i 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.
    - Gweddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.
    - Cynyddu nifer yr athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 ac i 5,200 erbyn 2050; cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg o 500 i 900 erbyn 2031 ac i 1,200 erbyn 2050; a chynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 ac i 4,200 erbyn 2050.

- Diwygio'r cynnig addysg a sgiliau ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i sicrhau bod gan bobl ifanc gyfle i barhau i ddatblygu sgiliau dwyieithog i gefnogi economi sy'n ffynnu.
- Adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r iaith.
- Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain.
- Datblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu ac i gefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun.
- Gweddnewid y tirwedd digidol Cymraeg, gan roi pwyslais arbennig ar dechnolegau iaith.
- Datblygu rhaglen genedlaethol i gynyddu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd.

6. Mae *Cymraeg 2050* yn cynnwys tair thema sef:

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau.

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

- Y gweithle
- Gwasanaethau
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

- Cymuned a'r economi
- Diwylliant a'r cyfryngau
- Cymru a'r byd ehangach
- Technoleg ddigidol
- Seilwaith ieithyddol
- Cynllunio ieithyddol
- Gwerthuso ac ymchwil.

Mae cwmpas y rhaglen wedi'i gyfyngu i weithredu Strategaeth *Cymraeg 2050*. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddatblygiadau polisi sy'n ymwneud â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg a chreu'r amgylchiadau, o ran seilwaith a chyd-destun i gefnogi ffyniant y Gymraeg. Mae'r gallu i wireddu gweledigaeth y Llywodraeth yn gyfrifoldeb traws-adrannol gyda llwyddiant yn ddibynnol ar sawl elfen gan gynnwys, ymysg eraill: datblygu cwricwlwm addysg newydd sy'n rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg; dull cadarn o greu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg drwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA); cynllunio economaidd sy'n gweithio gydag ac er budd y Gymraeg a Llywodraeth sydd yn arwain drwy esiampl gan gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg ei gweithlu ei hun.

Diben y ddogfen hon

7. Diben y ddogfen yw:
   - Diffinio cwmpas, cynnwys ac amcanion cyffredinol y Rhaglen i weithredu gweledigaeth *Cymraeg 2050* a'r nodau a'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn *Cymraeg 2050: Raglen waith 2017-2021.*
   - Nodi sut y caiff y Rhaglen ei rheoli er mwyn gwneud yn siŵr y caiff ei gweithredu'n llawn ac yn effeithiol.
   - Cyflwyno ffordd i asesu llwyddiant y Rhaglen.

8. Bydd y ddogfen hon yn cyflwyno'r Rhaglen mewn ffordd syml a dealladwy i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith o'i gweithredu. Caiff y ddogfen ei defnyddio fel dogfen gyfeirio drwy gydol oes y Rhaglen a byddwn yn ei diweddaru os bydd gofyn gwneud newidiadau i'r Rhaglen.

Nodau'r Rhaglen

9. Mae'r Rhaglen wedi'i sefydlu er mwyn gwneud yn siŵr y caiff *Cymraeg 2050* ac unrhyw is-raglenni gwaith eu gweithredu'n effeithiol ac yn llwyddiannus. Hefyd, bydd yn gyfrifol am fonitro gwaith sy'n digwydd mewn meysydd portffolio ehangach ar draws y Llywodraeth a thu hwnt sy'n gwbl greiddiol i lwyddiant *Cymraeg* 2050.

Cwmpas y Rhaglen

10. Bydd holl strwythurau llywodraethiant y Rhaglen yn gyfrifol am wneud yn siŵr y caiff amcanion *Cymraeg 2050* ac unrhyw is-raglenni eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Trefniadau Llywodraethiant

Crynodeb o'r Byrddau a'r Strwythur Llywodraethu

11. Caiff strwythur llywodraethiant y Rhaglen a chylch gorchwyl pob elfen eu trafod gan y Bwrdd Rhaglen a'u diweddaru yn ôl y gofyn. Bydd tair haen lywodraethiant i'r Rhaglen sef:

    (i) Lefel 1: strategol
    (ii) Lefel 2: gweithredol
    (iii) Lefel 3: cyflawni


Lefel 1: strategol
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Gweinidogion eraill yn ôl y galw
Bwrdd y Llywodraeth / y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)
Cyngor Partneriaeth y Gymraeg


Lefel 2: gweithredol
Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050
Uwch-dim Rheoli y Gyfarwyddiaeth Addysg
Uwch-dîm Rheoli Is-adran y Gymraeg
Cyd-drefnyddion Gwasanaethau Dwyieithog


Lefel 3: cyflawni
Thema 1
Bwrdd Prosiect y Gymraeg mewn Addysg
Bwrdd Cynghori Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Wedi cwblhau ei waith fis Mawrth 2019)
Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog
Thema 2
Mwy na geiriau
Grŵp Cynllunio Ieithyddol
Bwrdd Prosiect Bil y Gymraeg (Wedi dirwyn i ben ddechrau 2019)
Thema 3
Bwrdd Technoleg Cymraeg
Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg

Lefel 1: strategol

12. **Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
Caiff gwybodaeth ei rhannu'n rheolaidd â Gweinidog y Gymraeg..

13. **Gweinidogion eraill**
Caiff gwybodaeth ei rhannu gyda gweinidogion eraill yn ôl y galw. Bydd hyn yn digwydd yn gymharol rheolaidd gan fod y Gymraeg yn faes y bydd gofyn ei brif-ffrydio ar draws holl feysydd portffolio y Llywodraeth.

14. **Bwrdd y Llywodraeth / y Pwyllgor Gweithredolo (ExCo)**
Y bwriad yw cyflwyno eitemau ar *Cymraeg 2050* i Fwrdd y Llywodraeth / y Pwyllgor Gweithredol (ExCo) o bryd i'w gilydd a hynny ar gyngor y Bwrdd Rhaglen.

15. **Cyngor Partneriaeth y Gymraeg**

Cylch Gorchwyl a Rolau a Chyfrifoldebau Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Sefydlwyd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg o dan adran 149 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae adran 149 yn gwneud darpariaethau ynghylch sefydlu a chyfansoddiad y Cyngor Partneriaeth a phenodi ei aelodau. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheolau sefydlog ar gyfer y Cyngor Partneriaeth, ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cyngor Partneriaeth. Dyma'r rheolau sefydlog: perthnasol:

[Dolen]

Rôl y Cyngor Partneriaeth fydd rhoi cyngor neu gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â strategaeth y Gymraeg a fabwysiadwyd o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gan gynnwys y Cynlluniau Gweithredu blynyddol yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r cynigion a nodwyd yn y strategaeth).

Yn benodol, bydd y Cyngor Partneriaeth yn cynghori ac yn cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch:

- strategaeth Gymraeg Gweinidogion Cymru gan gynnwys ei chynllun gweithredu blynyddol;
- cynnwys cynlluniau gweithredu blynyddol yn nodi sut y bydd y Llywodraeth yn cyflawni'r cynigion a nodwyd yn strategaeth y Gymraeg, a chynnydd o ran eu cyflawni;
- caiff y Cyngor Partneriaeth hefyd wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn rhesymol sy'n briodol at ddibenion rhoi'r cyngor hwnnw a chyflwyno'r sylwadau hynny; gan gynnwys ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ym maes polisi iaith, a'r anghenion am dystiolaeth ychwanegol;
- gall y Cyngor Partneriaeth gynnull grwpiau gorchwyl a gorffen a gweithgorau a fydd yn cynorthwyo y Cyngor Partneriaeth i ddarparu cyngor a chyflwyno

sylwadau i Weinidogion Cymru. Bydd y rhain yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor Partneriaeth ar eu gwaith.

Aelodaeth
Bydd y penodiadau hyn yn para hyd at 1 Gorffennaf 2020:

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (Cadeirydd)

Simon Brooks

Owen Derbyshire

Rhian Huws-Williams

Dewi Jones

Gwion Lewis

Rhodri Llwyd Morgan

Angharad Lloyd-Williams

Gwynedd Parry

Enlli Thomas

Marian Thomas

Lefel 2: gweithredol

Cylch Gorchwyl Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050

16. Diben y Bwrdd Rhaglen yw craffu ar gynnydd, cynnig cyngor ac arweiniad a sicrwydd wrth weithredu strategaeth *Cymraeg 2050*.

    Dyma fydd y prif fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau ar raglen *Cymraeg 2050*.

    Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cynnig y llywodraethiant sydd ei angen i roi'r amcanion tymor hir a nodir yn *Cymraeg 2050* ar waith.

    Disgwylir i'r pwyslais fod yn y lle cyntaf ar weithredu *Rhaglen Waith 2017-21* y strategaeth. Nod y rhaglen waith hon yw gosod y seiliau cychwynnol ar gyfer gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Cafodd y rhaglen waith ei drafftio gyda mewnbwn swyddogion ar draws amrywiol adrannau'r Llywodraeth.

    Mae yma bwyslais mawr hefyd ar brif ffrydio a chyfathrebu prif negeseuon y strategaeth ar draws adrannau'r Llywodraeth, ymysg rhanddeiliad allanol a'r cyhoedd.

    Ymhen amser, bydd y Bwrdd Rhaglen yn rhoi cyngor ar gynnwys cynlluniau gweithredu a rhaglenni gwaith y dyfodol.

Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd Rhaglen

17. Yn ei hanfod, mae polisi y Gymraeg yn gwbl drawsbynciol, felly bydd gweithredu *Cymraeg 2050* yn berthnasol i bortffolios nifer o Weinidogion Cymru. Mae i ba raddau y bydd *Cymraeg 2050* yn effeithio ar y portffolios unigol yn dibynnu ar brif flaenoriaethau'r strategaeth.

    I adlewyrchu natur drawsbynciol y rhaglen, ceir cynrychiolaeth ar y Bwrdd o nifer o adrannau Llywodraeth Cymru. Bydd aelodau'r Bwrdd yn allweddol wrth i'r strategaeth gael ei phrif ffrydio i holl feysydd gwaith y Llywodraeth.

18. Yn benodol, bydd y Bwrdd yn:

- gyfrifol am brif ffrydio'r Gymraeg ar draws Llywodraeth Cymru ('sefydlu egwyddorion cynllunio ieithyddol ar draws Llywodraeth Cymru (amcan 14.1 Rhaglen Waith 20127-21));
- edrych ar drosolwg strategol o berfformiad y Rhaglen gan gynnwys rheoli risgiau;
- cynnig sicrwydd ar benderfyniadau / materion sy'n codi o'r Byrddau Prosiect unigol;
- gwneud penderfyniadau lle ceir gwrthdaro polisi, adnoddau a / neu gyllideb rhwng y Byrddau Prosiect;
- sicrhau bod trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd priodol ar waith.

19. **Aelodaeth y Bwrdd Rhaglen**

Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog a Brexit	
Des Clifford (Cadeirydd),	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog Pencampwr y Gymraeg
Dylan Hughes	Prif Gwnsler Deddfwriaethol Gyda chyfrifoldeb dros gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â Safonau'r Gymraeg
Toby Mason	Pennaeth Cyfathrebu Strategol
[ ]	Uwch Gyfreithiwr ym maes y Gymraeg ac addysg
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus	
[ ]	Cynghorydd Proffesiynol, y Gymraeg mewn Addysg Cadeirydd Bwrdd Prosiect y Gymraeg mewn Addysg
Owain Lloyd	Dirprwy Gyfarwyddwr, Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar
John Howells	Pennaeth Tai ac Adfywio

Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol		
Sioned Evans (Is-gadeirydd),	Cyfarwyddwr Busnes a'r Rhanbarthau	
Mari Stevens	Dirprwy Gyfarwyddwr, Marchnata	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol		
Glyn Jones	Prif Ystadegydd	
[ ]	Ymchwilydd ym maes y Gymraeg (KAS)	
Sioned Rees	Pennaeth Cefnogaeth Mesurau Arbennig ac Uwchgyfeirio	
Ifan Evans	Cyfarwyddwr, Technoleg a Thrawsnewid	
[ ]	Archwilydd Mewnol	
Is-adran y Gymraeg		
Bethan Webb	Dirprwy Gyfarwyddwr y Gymraeg (SRO)	
[ ]	Pennaeth Cangen Cymraeg 2050 Rheolwr y Rhaglen	
[ ]	Rheolwr Polisi Iaith Gymraeg	

O bryd i'w gilydd, disgwylir i'r Bwrdd Rhaglen geisio cyngor gan swyddogion eraill. Byddant yn cael eu gwahodd naill ai i ymuno fel aelodau neu i fynychu cyfarfodydd, yn ôl y galw.

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen, bydd yr aelodau yn ystyried:

- Adroddiad amlygu (*Highlight report*)
- Cofrestr risgiau lefel uchel
- Dogfen Cychwyn Rhaglen (PID)

20. Uwch-dim Rheoli Is-adran y Gymraeg

Cylch Gorchwyl / Rolau a Chyfrifoldebau

- Monitro gwariant y Rhaglen ar faterion o fewn Cyllideb Is-adran y Gymraeg.
- Ystyried diweddariadau a ddarperir gan y Bwrdd Rhaglen a / neu Fyrddau Prosiect yn ôl y galw;
- Trafod gwrthdaro polisi, adnoddau a neu cyllideb rhwng y prosiectau ar faterion sydd o fewn rheolaeth a chyfrifoldeb is-adran y Gymraeg
- Cyfeirio materion at yr Uwch-swyddog Cyfrifol (SRO) a thwy hynny at y Bwrdd Rhaglen;
- Gwneud argymhellion i'r Bwrdd Rhaglen;
- Sicrhau bod negeseuon i randdeiliaid yn gyson;
- Cyfrannu at y gwaith o lunio cynlluniau gweithredu ac adroddiadau blynyddol gyda'r byrddau prosiect unigol.

21. **Uwch – dim Rheoli y Gyfarwyddiaeth Addysg**

Cylch Gorchwyl / Rolau a Chyfrifoldebau

- Ystyried diweddariadau a ddarperir gan y Bwrdd Rhaglen a / neu Fyrddau Prosiect unigol yn ôl y galw;
- Ystyried y risgiau lefel uchaf a'r camau gweithredu lliniaru a gynigir;
- Trafod cynnydd yn erbyn *Cymraeg 2050* ac unrhyw heriau gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag adnoddau.

22. **Cyd-drefnyddion Gwasanaethau Dwyieithog**

Cylch Gorchwyl
Bydd y Cyd-drefnyddion Gwasanaethau Dwyieithog yn cynghori cydweithwyr ar draws y sefydliad ar ddau brif faes:

- Materion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg a hynny o dan arweiniad Tîm Safonau Iaith y Llywodraeth;
- Materion polisi a phrif ffrydio *Cymraeg 2050* o dan arweiniad Cangen Cymraeg 2050.

Byddant yn gwneud hyn er mwyn cefnogi adrannau i wneud yn siŵr bod y Llywodraeth yn cydymffurfio a'r Safonau Iaith a bod polisi *Cymraeg 2050* yn cael ei adlewyrchu yn holl feysydd gwaith y Llywodraeth.

Prif rolau a chyfrifoldebau
Bydd y Cyd-drefnyddion Gwasanaethau Dwyieithog yn gweithio gyda Thîm y Safonau Iaith ac Is-adran y Gymraeg (Cangen 2050 yn benodol) i:

- gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion Safonau'r Gymraeg / *Cymraeg 2050* i'w cydweithwyr yn eu hadrannau unigol;
- cynorthwyo Cangen Cymraeg 2050 i brif ffrydio *Cymraeg 2050* i holl feysydd gwaith y Llywodraeth.
- mynychu cyfarfodydd Cyd-drefnyddion deufisol i drafod y Gymraeg yn y Llywodraeth;
- bod yn ymwybodol o ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg sy'n berthnasol i'w cyfarwyddiaethau;
- rhaeadru gwybodaeth ar draws y cyfarwyddiaeth;
- cynnig cyngor i gydweithwyr i wneud yn siŵr y caiff Asesiadau Effaith y Gymraeg eu cynnal mewn ffordd effeithiol ac effeithlon pan gaiff deddfwriaeth, polisïau, grantiau neu fentrau newydd eu datblygu;
- casglu data am y Gymraeg yn ôl y galw gan y Cyfarwyddiaethau;
- gweithio gyda thîm y Safonau a'r Uned gwynion ganolog pan ddaw cwynion i law.

Lefel 3: cyflawni
Y bwriad yw defnyddio byrddau prosiect sydd eisoes yn bodoli lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Dyma'r grwpiau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd eraill yn cael eu sefydlu neu y gall rhai o'r isod ddirwyn i ben yn ôl y galw:

Thema 1 *Cymraeg 2050*: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Bwrdd Prosiect y Gymraeg mewn Addysg
- Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog
- Bwrdd Cynghori Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (wedi cwblhau ei waith fis Mawrth 2019).

Thema 2 *Cymraeg 2050*: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Mwy na geiriau
- Grŵp Cynllunio Ieithyddol (Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg gynt)
- Bwrdd prosiect Bil y Gymraeg (wedi dirwyn i ben ddechrau 2019).

Thema 3 *Cymraeg 2050*: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun
- Bwrdd Technoleg Cymraeg
- Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg.

Bydd y Byrddau Prosiect unigol yn gyfrifol am:

- gynghori ar faterion polisi er mwyn cyflawni amcanion *Cymraeg 2050*;
- monitro cynnydd yn erbyn amserlenni ar gyfer pob amcan gan amlygu unrhyw faterion sy'n codi i'r Bwrdd Rhaglen;
- adnabod a chofnodi risgiau sy'n perthyn i'r prosiectau a chynghori pa rai ddylai gael eu cyfeirio at y Bwrdd Rhaglen.

Cyfyngiadau ar y Rhaglen
23. Mae cyfyngiadau'r Rhaglen yn cynnwys:

- Y galw i brif ffrydio *Cymraeg 2050* i holl feysydd gwaith y Llywodraeth.
- Ymrwymiad ar lefel uchaf y llywodraeth i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.
- Yr angen i unrhyw weithredu cynnar ddilyn amserlen y gwaith i ddatblygu a chyflwyno cwricwlwm addysg newydd.
- Effeithiau hirdymor penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd wrth i'r trafodaethau gwleidyddol ddwysau.
- Penderfyniadau gan Weinidogion Cymru a all effeithio ar gyfeiriad ac amseru y rhaglen.

Rheolyddion y Rhaglen

24. Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cyfarfod i gymeradwyo prif gerrig milltir y prosiect, i roi cyfeiriad strategol i'r prosiect ac i gytuno ar unrhyw newidiadau i'r prosiect.

    Mae'r Uwch-swyddog Cyfrifol (SRO) yn gyfrifol ac yn atebol am gyflawni pob agwedd o'r rhaglen o fewn y terfynau amser a gytunwyd. Yr SRO yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau parthed y rhaglen.

    Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn adrodd i Uwch-dim Rheoli y Gyfarwyddiaeth Addysg ac i Fwrdd Rheoli y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

    Bydd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn derbyn diweddariadau drwy'r system MA-P, ac yn mynychu cyfarfodydd cyson gydag SRO y rhaglen. Yr Uwch-swyddog Cyfrifol fydd yn gyfrifol am glirio'r MA-Ps yn derfynol. Bydd Gweinidogion eraill, gan gynnwys y Prif Weinidog, yn derbyn diweddariadau yn ôl y galw.

Dull Rheoli Rhaglen

25. Mae rhaglenni o fewn y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu rheoli gan ddefnyddio prif egwyddorion dull PPM.

    Bwriedir i'r Bwrdd Rhaglen barhau nes 2021 yn y lle cyntaf. Mae'n bosibl y gwelir y bydd angen ei ymestyn wrth i raglenni gwaith pellach gael eu cyhoeddi.

    Ar ddiwedd pob carreg filltir bwysig, bydd y Bwrdd Rhaglen yn myfyrio ar y camau ac yn cofnodi gwersi a ddysgwyd.

Prif Gerrig Milltir

26. Mae Cangen Cymraeg 2050 wrthi'n datblygu cynllun rhaglen manwl a fydd yn cefnogi'r cynlluniau gweithredu blynyddol. Bydd y ddogfen yn cael ei diweddaru yn gyson.

    Dyma amserlen fras o'r prif gerrig milltir a fydd yn sail i'r ddogfen honno:

Prif Gerrig Milltir	**Dyddiadau arfaethedig**	**Cwblhawyd?**
Cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg: *Cymraeg 2050*	11 Gorffennaf 2017	X
Cyhoeddi *Rhaglen Waith 2017-2021*	11 Gorffennaf 2017	X
Cyhoeddi *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg*	11 Gorffennaf 2017	X
Cyhoeddi Cynllun Gweithredu blynyddol tua		

dechrau pob blwyddyn ariannol hyd diwedd oes y Rhaglen Waith: (i) Cynllun Gweithredu 2018-2019 (ii) Cynllun Gweithredu 2019-2020	 Mehefin 2018 I'w gyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2019	 X
Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol yn adrodd ar bob Cynllun Gweithredu hyd diwedd oes y Rhaglen Waith: (i) Adroddiad Blynyddol 2016-2017 (ii) Adroddiad Blynyddol 2017-2018	 Mawrth 2018 I'w gyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2019	 X
Cyhoeddiad gan y Gweinidog Addysg parthed: (i) Bwriad i ymgynghori ar reoliadau newydd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. (ii) Canfyddiadau Bwrdd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. (iii) Gwybodaeth am adolygiad ym maes categoreiddio ysgolion.	Mawrth 2019	
Datblygu a gweithredu Cynllun Cyfathrebu Strategaeth *Cymraeg 2050* ar draws adrannau'r Llywodraeth. Bydd yn cynnwys rhaglen farchnata fewnol i raeadru prif negeseuon *Cymraeg 2050* a'r hyn y mae'n ei olygu i adrannau / timau / unigolion ar draws y Llywodraeth.	Hydref 2019	

Gweithio gyda thîm y Safonau Iaith Gymraeg i rannu negeseuon cyson a chlir.		
Datganiad ynghylch cyfrifoldebau gwahanol gyrff i'r dyfodol er mwyn gweithredu *Cymraeg 2050*.	Hydref-Gaeaf 2019	
Cyhoeddi Polisi Trosglwyddo Iaith o fewn y Teulu.	Hydref 2019	
Datganiad Llafar ar seilwaith ieithyddol.	Hydref 2019	
Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050 (2017-2021) Bydd hyn yn cynnwys cynnal gwaith gwerthuso / gwersi a ddysgwyd.	2021	
Cyhoeddi *Rhaglen Waith 2021 – 2026*	2021	
Cyhoeddi a rhoi ar waith y Cwricwlwm Addysg newydd.	2021	

Achos Busnes

27. Mae Adran 78 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006) yn datgan: "The Welsh Ministers must adopt a strategy ("the Welsh language strategy") setting out how they propose to promote and facilitate the use of the Welsh language." Mae Strategaeth *Cymraeg 2050* yn ymateb yn uniongyrchol i'r angen statudol hwn. O'r herwydd, nid oes achos busnes ffurfiol wedi'i baratoi.

Tybiaethau Cynllunio a dibyniaethau

28. Mae Cynllun Rhaglen wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn tybio'r canlynol:

- bydd cynlluniau gweithredu blynyddol yn cael eu cyhoeddi;
- bydd adnoddau priodol yn nhîm polisi Cymraeg 2050 ac ar draws Is-adran y Gymraeg drwy gydol y oes y rhaglen;
- ni fydd rhwystrau i gydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth er mwyn gwireddu amcanion strategaeth *Cymraeg 2050*.

29. Nodir y dibyniaethau canlynol:
- amserlen datblygu a chyhoeddi Cwricwlwm addysg newydd;
- penderfyniad maes o law ynghylch cyfrifoldebau gwahanol gyrff yn y dyfodol er mwyn gweithredu *Cymraeg 2050* (yn sgil y penderfyniad diweddar i beidio â deddfu i greu Comisiwn);
- goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd wrth i'r trafodaethau gwleidyddol dwysáu.

Cynllun Cyfathrebu

30. Bydd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol yn cael ei ddatblygu a bydd yn rhoi pwyslais ar gynyddu ymwybyddiaeth staff y Llywodraeth o'r weledigaeth a gyflwynir yn *Cymraeg 2050* a'r hyn a olygir iddynt hwy yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

31. Cangen Cymraeg 2050 fydd yn gyfrifol am gydlynu a chadw'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu yn gyfredol, ac unrhyw gynllun neu strategaeth wedi hynny. Fodd bynnag, disgwylir i aelodau'r Bwrdd Rhaglen gyfrannu drwy gynnig cyngor ac arweiniad os cyfyd unrhyw anawsterau gweithredol.

Trefn sicrhau ansawdd y Rhaglen

32. Bydd y canlynol yn cyfrannu at sicrhau ansawdd y prosiect:

- Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu i roi cyngor a sicrwydd i gefnogi'r SRO drwy'r broses o wireddu gweledigaeth y strategaeth gyda'r ffocws yn y lle cyntaf ar weithredu *Rhaglen Waith 2017-2021*.
- Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cytuno ar gynnwys y ddogfen Cychwyn Rhaglen (PID).
- Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cyfarfod bod tymor, neu yn ôl y galw.
- Bydd y rhaglen y cael ei rheoli yn unol ag egwyddorion PPM.
- Bydd y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r polisi yn dilyn arfer da o fewn Llywodraeth Cymru.

Cofrestr Risgiau

33. Caiff cofrestr risgiau lefel uchel ei chyflwyno gerbron y Bwrdd Rhaglen ym mhob cyfarfod. Bydd yn cynnwys risgiau lefel uchaf o bob un o brosiectau'r rhaglen. Cangen Cymraeg 2050 fydd yn gyfrifol am gadw'r gofrestr yn gyfredol. Disgwylir hefyd i holl aelodau'r Bwrdd Rhaglen adnabod ac ystyried risgiau sydd yn gysylltiedig â'r gwaith yn eu hadrannau eu hunain.

    Caiff risgiau eu hystyried yn nhermau eu heffaith bosibl, pa mor debygol o ddigwydd ydynt a rhoddir sgôr i bob risg. Bydd swyddog penodol yn cael ei bennu i fod yn gyfrifol am y gweithredoedd lliniarol.

    Mae'r Gofrestr Risg ar gael yma:

[*Dolen*]

Gwireddu Manteision y Rhaglen (***Benefits Realisation***)

34. Er bod *Cymraeg 2050* yn strategaeth ag ynddi weledigaeth hirdymor, caiff ei hategu gan *Raglen Waith 2017-21* a chynlluniau gweithredu blynyddol manwl. At ddiben y Bwrdd Rhaglen, nid ydym wedi mynd ati i fapio'r manteision mewn dogfen ar wahân gan fod y strategaeth a'r dogfennau sy'n ei hategu yn nodi'n glir

beth yw'r weledigaeth a'r hyn sy'n rhaid ei wneud i gyrraedd y miliwn. Os bydd y Bwrdd Rhaglen am weld gwaith pellach yn cal ei wneud yn hyn o beth, bydd cangen Cymraeg 2050 yn mynd ati i ddilyn eu cyngor.

Atodiad 1

Dogfennau allweddol

Dogfennau lefel uchel	
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh
Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017)	http://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf
Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Rhaglen waith 2017-21 (2017)	http://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-cymraeg-2050-work-programme-cym-v2.pdf
Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg	http://gov.wales/docs/dcells/publications/170725-technical-report-projection-and-trajectory-for-the-number-of-welsh-speakers-cy.pdf
Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021	https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/y-gymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017%E2%80%9321.pdf
Symud Cymru Ymlaen 2016–2021 (2016)	https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy
Dogfennau lefel is	
Cynllun Gweithredu 2018-2019	https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-cynllun-gweithredu-strategaeth-y-gymraeg-2018-i-2019.pdf
Cynllun Gweithredu 2019 - 2020	I'w gyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2019
Adroddiad Blynyddol 2017 - 2018	I'w gyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2019